



Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru

**Digwyddiad Ymgysylltu gyda Rhanddeiliaid
7 Tachwedd 2013
Adroddiad**

Cynnwys

1	Cefndir i'r Digwyddiad – Amcanion Rhwydwaith Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru	Tudalennau 3 - 4
2	Croeso ac anerchiad agoriadol – Steve Bennett, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	Tudalen 4
3	Trosolwg o'r Diwrnod – Paula Walters, Cyfarwyddwr, Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	Tudalen 4
4	Cynnydd a Chyflawniadau Allweddol – Aelodau'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus	Tudalennau 4 – 9
5	Pwyntiau Allweddol ac Adborth - Paula Walters, Cyfarwyddwr, Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	Tudalen 10
6	Diolch a Chau - Steve Bennett, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	Tudalen 11

Atodiadau

A1	Rhaglen y Digwyddiad	Tudalen 12
A2	Aelodaeth Rhwydwaith Sector Gyhoeddus Cydraddoldeb Gogledd Cymru a Chysylltiadau	Tudalen 13
A3	Rhestr Mynychwyr	Tudalen 14
A4	Monitro Cydraddoldeb	Tudalennau 15 – 16
A5	Adborth o'r Ffurflenni Arfarnu	Tudalennau 17 – 18
A6	Adborth gan y cynrychiolwyr ar y cyflwyniadau cynnydd	Tudalennau 19 - 26

1. Cefndir i'r Digwyddiad – Amcanion Rhwydwaith Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi Dyletswydd Gyffredinol ar gyrrff cyhoeddus rhestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol, wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau (ac ar bobl eraill wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus) i roi sylw teilwng i:

- Gael gwared ag ymddygiad y mae'r Ddeddf yn ei wahardd;
- Yr angen i wella cydraddoldeb cyfleoedd rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion perthnasol a ddiogelir a phobl nad ydynt; ac
- Yr angen i feithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir perthnasol a phobl nad ydynt

Ym mis Ebrill 2011 fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ymarfer ei hawl i gyflwyno Dyletswyddau Penodol ac mae'r rhain wedi eu gosod allan yn Rheoliadau'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. O dan y Rheoliadau hyn, yr oedd yn ofynnol i bob sefydliad sector gyhoeddus yng Nghymru i adnabod a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb strategol erbyn yr 2il o Ebrill 2012.

Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru

Mae arweinwyr mewn cydraddoldeb ymhob un o'r Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Ambiwllans Ymddiriedolaeth GIC, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru a'r Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i gyd wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd o dan Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru (a gyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y Rhwydwaith'), er mwyn symud yr agenda cydraddoldeb yn ei flaen a mynd i'r afael â materion sydd a wnelo anghydraddoldeb sy'n torri ar draws y sector gyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

Ymgwymerwyd â chwiliad eang o adroddiadau ac argymhellion o gwmpas anghydraddoldebau gan aelodau'r grŵp hwn, er mwyn archwilio ac ymchwilio'r data manwl a arweiniodd at ddatblygu amcanion a rennir yn 2012:

- Amcan 1: Lleihau anghydraddoldebau mewn Iechyd
- Amcan 2: Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg
- Amcan 3: Lleihau anghydraddoldebau mewn Cyflogaeth a Thâl
- Amcan 4: Lleihau anghydraddoldebau mewn Diogelwch personol
- Amcan 5: Lleihau anghydraddoldebau o ran Cynrychiolaeth a Llais
- Amcan 6: Lleihau anghydraddoldebau o ran Mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Ym mis Medi 2011 cynhaliwyd Digwyddiad Ymgysylltu a oedd yn darparu'r wybodaeth bellach sy'n angenrheidiol ar gyfer gosod Amcanion Cydraddoldeb Rhanbarthol ar gyfer sefydliadau yn y Sector Gyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Mae pob un o'r sefydliadau yn rhoi camau gweithredu ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r materion allweddol a adnabuwyd yn eu sefydliadau eu hunain.

Mae'r Rhwydwaith yn derbyn yr athroniaeth "Dim byd amdanom ni hebom ni" yn llawn, ac yn credu ei bod yn hanfodol i gynnwys ac ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli pobl sy'n cynrychioli pob un o'r nodweddion a ddiogelir, er mwyn sicrhau bod y Rhwydwaith yn parhau i fynd i'r afael â'r materion sy'n berthnasol yng Ngogledd Cymru heddiw. Roedd y digwyddiad hwn yn rhan o ymrwymiad parhaus i ymgysylltu a'r bwriad oedd darparu diweddariad ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn a'r cyfle i drafod y ffordd orau i barhau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd fel rhai pwysig.

2. Croeso ac Anerchiad Agoriadol

Agorwyd y digwyddiad gan Steve Bennett o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a chroesawyd yr holl randdeiliaid, aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau'r trydydd sector a chydweithwyr yn y sector cyhoeddus. Dywedodd Steve ei fod yn falch iawn o fod wedi cael gwahoddiad i agor y sesiwn a chefnogi'r digwyddiad. Siaradodd am bwysigrwydd ymgysylltu cynhwysol, Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru, a sut yr oedd y digwyddiad heddiw yn gyfle i adeiladu ar y gwaith ymgysylltu â'r sector cyhoeddus ehangach yng Ngogledd Cymru a wnaed yn flaenorol a oedd yn sail i ddatblygu amcanion cydraddoldeb y Rhwydwaith a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol unigol y sefydliadau yn 2011. Anogodd Steve i'r holl randdeiliaid i gymryd rhan heddiw a rhannu eu meddyliau a'u syniadau.

3. Trosolwg o'r Diwrnod

Cyflwynodd Paula Walters o'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol ei hun ac amlinellodd ei rôl fel Cadeirydd am y diwrnod. Dywedodd Paula ei bod yn falch iawn o fod wedi cael gwahoddiad i Ogledd Cymru i gynnal y digwyddiad ac roedd ganddi ddiddordeb yn arbennig i wrando ar farn cynrychiolwyr o'r trydydd sector. Nododd Paula y canllawiau arfer da fel enghraifft gadarnhaol iawn o weithio mewn partneriaeth gan y grŵp ac anogodd y mynychwyr i anfon sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori a rhannu cynnydd y negeseuon allweddol gyda chydweithwyr yng ngweddill Cymru. Ailadroddodd Paula bwrpas y dydd ac annog pawb a oedd yn bresennol i rannu eu meddyliau a'u profiadau.

4. Cynnydd a Chyflawniadau Allweddol

Rhoddodd Aelodau o'r Rhwydwaith ddiweddariad cryno mewn perthynas â phob un amcan cydraddoldeb.

➤ **Amcan 1: Lleihau anghydraddoldebau mewn lechyd**

Mae pob sefydliad wedi gweithio er mwyn sylfaenu'r amcanion cydraddoldeb o fewn prosesau cynllunio busnes craidd er mwyn cynnal y gwaith hwn. Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb mewn cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor wedi cael ei gryfhau ac mae

ymrwymiad cryf wedi cael ei wneud tuag at godi ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau trwy hyfforddiant staff. Mae dros 4,000 o staff ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bellach wedi cwblhau'r pecyn e-ddysgu ar gydraddoldeb & hawliau dynol.

Mae swm sylweddol o ymglymu rhanddeiliaid wedi digwydd er mwyn bwydo gwybodaeth i mewn i'r adolygiad o'r gwasanaeth 'Mae gofal iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid.' Cafodd y grŵp Craffu Asesu Effaith Cydraddoldeb ei ffurfio er mwyn gorolygu'r gwaith hwn ac mae'n cael ei gyhoeddi ar wefan Bwrch Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/58093>).

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio gyda Sefydliad Hawliau Dynol Prydain i ddatblygu pecyn Cymorth Hawliau Dynol yng ngofal iechyd ar gyfer rheolwyr wardiau sydd wedi cael ei lansio'n ddiweddar.

Mae gweithredu'r Safonau Gwybodaeth a Chyfathrebu Hygyrch traws Cymru Gyfan ar gyfer Pobl sydd wedi Colli Synhwyrau yn flaenoriaeth gan sefydliadau mewn iechyd, ac mae Ambiwlans Cymru wedi cael eu canmol am gynhyrchu canllaw cyfathrebu cyn mynd i mewn i'r ysbyty ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth Ambiwlans yn gweithio ar brosiectau i wella gwasanaethau i gleifion sydd ag anawsterau dysgu. Mae gwaith hefyd ar y gweill rhwng partneriaid iechyd ac awdurdodau lleol i ddatblygu cynllun gweithredu i gwrdd â Safonau ar gyfer Gwella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau Bregus (agored i niwed) penodol.

➤ **Amcan 2: Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg**

Mae holl Gyngorau Gogledd Cymru wedi bod yn hyfforddi a chefnogi ysgolion ar ofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chanllawiau gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru "Parchu Eraill". Mae gwahanol ddulliau wedi cael eu defnyddio. Er enghraifft: -

- Cynhaliodd Cyngor Sir y Fflint gynhadledd a oedd yn cynnwys pobl ifanc yn ogystal ag athrawon - "Gŵyl Barch" yn edrych ar fynd i'r afael â phob math o fwlio, gan gynnwys bwlio ar sail hunaniaeth.
- Mae Cyngor Gwynedd a Môn yn cynnig gwasanaeth cwnsela ar gyfer pobl ifanc ym mhob ysgol uwchradd. Mae tîm o gynghorwyr hyfforddedig lefel uchel ar gael i gynnig help gydag ystod eang o broblemau emosiynol neu faterion sy'n wynebu plant a phobl ifanc.
- Mae system prydau ysgol 'di-arian' wedi ei gyflwyno gan y Cyngor Sir Ynys Môn. Gwelwyd bod y nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim yn Ynys Môn yn is na'r lefelau a ddisgwyliwyd a'u bod yn dirywio. Un o'r ffactorau y tu ôl i hyn oedd y stigma sydd ynghlwm i hawlio prydau ysgol am ddim, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Mae system 'di-arian' bellach wedi ei gyflwyno ym mhob un o'r 5 ysgol uwchradd ar Ynys Môn. Mae'r system hon yn cael gwared ar y stigma drwy ei gwneud yn amhosibl gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n talu am eu prydau bwyd a rhai nad ydynt. At ei gilydd, mae'r fenter wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r gwaith yn parhau.

Mae pob Cyngor yng Ngogledd Cymru yn gweithio tuag at leihau bylchau mewn lefelau cyrhaeddiad. Er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i leihau'r bwlch rhwng bechgyn a merched wrth fynd ar drywydd cyfleoedd addysg uwch. Mae cyngor cynllunio gyrfa yn cael ei ddarparu i ddisgyblion ôl-TGAU ac mae protocol wedi cael ei ddatblygu i wella mynediad at addysg ffurfiol ac anffurfiol a galluogi plant sy'n "derbyn gofal" i fynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

Er mwyn hyrwyddo dysgu gydol oes, cynhaliwyd Gwyliau Dysgu i ddathlu Wythnos Addysg Oedolion. Mae'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (Dysgu Cymru), a chynhaliwyd digwyddiadau ledled Cymru er 2008. Amcangyfrifir bod oddeutu 20,000 o bobl drwy Gymru yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd o ganlyniad i'r gwyliau hyn sydd wedi bod yn cael eu cynnal yn ystod mis Mai yn y gorffennol, ond a fydd yn cael eu cynnal ym mis Mehefin yn 2014.

➤ **Amcan 3: Lleihau anghydraddoldebau mewn Cyflogaeth a Thâl**

Cyflwynodd y Rhwydwaith drosolwg o'r gweithlu cyfunol a gyflogir gan aelod-sefydliadau am y tro cyntaf. Rhoddwyd ciplun o fis Mawrth 2012 a oedd yn dangos ein bod, gyda'n gilydd, yn cyflogi ychydig dros 50,000 o weithwyr, â 27% ohonynt yn wrywod a 73% yn fenywod. Mae ychydig o dan 2% o weithwyr wedi datgan bod ganddynt anabledd ac ychydig o dan 2% o weithwyr wedi datgan eu bod o darddiad pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Cyflwynwyd hefyd am y tro cyntaf drosolwg o nifer y bobl sy'n ymgeisio am swyddi yn ein sefydliadau. Ar gyfer y cyfnod rhwng 1.4.2011 a 31.3.2012, ar y cyd roeddem wedi denu bron i 55,000 o ymgeiswyr, â 36% ohonynt yn wrywod a 64% yn fenywod. Datganodd 3% o ymgeiswyr bod ganddynt anabledd a dywedodd 14% eu bod o darddiad pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Bydd y Rhwydwaith yn adolygu beth mae'r data hwn yn ei ddweud wrthym am gyflogaeth a recriwtio ar gyfer y rhan fwyaf o sefydliadau yn y sector cyhoeddus ledled Gogledd Cymru er mwyn penderfynu a oes gweithgareddau ar y cyd y gallwn eu gwneud i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y data hwn.

Rhannodd y Rhwydwaith gyda'r mynychwyr rhai o'u llwyddiannau allweddol mewn perthynas â'n hamcanion Cyflogaeth a Thâl ar y cyd.

Mae pob aelod-sefydliadau yn cymryd camau i wella data cydraddoldeb cyflogaeth. Mae'r ffigurau cyflogaeth a ddyfynnwyd uchod yn rhoi rhyw syniad o nifer y bobl a all gael eu heffeithio a / neu eu dylanwadu gan bolisiau a mentrau cyflogaeth y mae ein sefydliadau yn eu cyflwyno.

Mae pob aelod-sefydliadau yn ymwneud â darparu hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer gweithwyr ac mae nifer hefyd yn ymwneud â darparu hyfforddiant iechyd meddwl penodol, ac wedi cyflwyno polisiâu Cam-drin Domestig, ac rydym yn rhagweld y bydd yn estyn ymhellach o lawer nag ein gweithlu cyfunol o 50,000.

Mae Cyngor Sir y Fflint, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Ambiwylans Cymru a Heddlu Gogledd Cymru oll yn rhan o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, ac mae eraill o aelodau'r Rhwydwaith wedi dechrau edrych ar y rhaglen; ac mae sefydliadau'n parhau i gefnogi rhwydweithiau gweithwyr sefydledig. Mae sefydliadau sy'n cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Heddlu Gogledd Cymru a Sir y Fflint wedi sefydlu rhwydweithiau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ferched, gweithwyr anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Ar ben hynny, cynhaliwyd digwyddiadau gyrfa wedi'u targedu ar gyfer y gwasanaethau brys, ac mae mentrau mewn lle mewn awdurdodau lleol i wella sgiliau, cymwysterau a chyflogadwyedd grwpiau sy'n agored i niwed ledled Gogledd Cymru.

➤ **Amcan 4: Lleihau anghydraddoldebau mewn Diogelwch personol**

Siaradodd aelodau o'r Rhwydwaith am ystod o fentrau sy'n cymryd lle i gynyddu nifer yr achosion o adrodd am droseddau casineb. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â chymunedau i feithrin ymddiriedaeth ac annog pobl i adrodd am achosion. Mae gweithio mewn partneriaeth ar draws yr holl aelod-sefydliadau yn allweddol.

Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru wedi darparu ymateb ar y cyd i ymgynghoriad diweddar y gweithgor ar y Fframwaith Troseddau Casineb ar gyfer Cymru. Bydd hon yn ddogfen allweddol i arwain gweithrediadau yn y dyfodol.

Mae pob aelod-sefydliadau wedi bod yn ymwneud â datblygu polisiâu cam-drin domestig. Cafodd proses Cynhadledd Asesu Risg yr Aml-asiantaeth ei gwella ynghyd â mynediad at wybodaeth.

➤ **Amcan 5: Lleihau anghydraddoldebau o ran Cynrychiolaeth a Llais**

Bu Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu'r canllaw - "Sut i fod yn rhan o gorff gwneud penderfyniadau." Mae'r canllaw hwn yn rhestru'r holl gyrf ff gwneud penderfyniadau sy'n bodoli ym mhob corff cyhoeddus y gall unigolion ddod yn aelodau ohonynt, megis dod yn llywodraethwr ysgol, neu'n aelod o'r Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb y Bwrdd Iechyd. Bydd y Canllaw hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefannau ac yn cael ei ddosbarthu ymhlith grwpiau lleol.

Mae'r Rhwydwaith wedi hwyluso digwyddiadau ar y cyd i ymgysylltu ac ymgynghori â grwpiau lleol sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig. Cynhaliwyd y digwyddiad ar y cyd diwethaf ym mis Tachwedd 2011 i geisio adborth ar yr amcanion cydraddoldeb rhanbarthol arfaethedig.

- Mae aelodau-sefydliadau unigol hefyd wedi bod yn gwneud cynnydd i gwrdd â'r amcanion yma. Cyfeiriwyd at ystod o enghreifftiau yn y cyflwyniad.
- Dadansoddodd Cyngor Gwynedd broffiliau cymunedol i bennu bylchau mewn cynrychiolaeth o grwpiau gwarchoddedig.
- Roedd nifer o aelod-sefydliadau wedi sefydlu fforymau cydraddoldeb penodol i wella ymgysylltiad a sicrhau mwy o gyfranogiad mewn asesiadau effaith ar gydraddoldeb.
- Aeth Cyngor Sir Ynys Môn ati i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddemocratiaeth leol cyn yr etholiadau lleol - y canlyniad oedd proffil demograffig ehangach o ymgeiswyr yn yr etholiad, a chynnydd yn y pen draw o ran nifer y cynghorwyr benywaidd.

➤ **Amcan 6: Lleihau anghydraddoldebau o ran Mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd**

Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu canllaw - "Sut i Drefnu Digwyddiadau Hygyrch". Mae'r canllaw yn tynnu sylw at nifer o bwyntiau allweddol ar gyfer trefnwyr digwyddiadau i ystyried a fydd yn darparu 'amgylchedd cynhwysol a chynnwys pawb'.

Adnabuwyd gwahanol rwystrau i ddefnyddio ein gwasanaethau sy'n cynnwys sut rydym yn cyfathrebu â'n defnyddwyr gwasanaeth a thrigolion, darparu hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer gweithwyr a mynediad corfforol i gyfleusterau sy'n cynnwys adeiladau, cludiant cyhoeddus a manau agored er enghraifft, y cefn gwlad.

Cyfathrebu - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gweithio hefo Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru i ddatblygu cerdyn i'w ddefnyddio gan bobl a nam ar y clyw. Mae pecyn cymorth wedi cael ei ddatblygu i alluogi fynediad gwell at wasanaethau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu mewn wardiau aciwt.

Mae gwefan hygyrchedd cefn gwlad Sir Ddinbych a llyfryn O Gwmpas yn darparu gwybodaeth ar deithiau cerdded hygyrch ar gyfer pobl anabl.

Hyfforddiant - Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi darparu hyfforddiant i staff yr adran gynllunio ar gynnwys datganiadau dylunio a mynediad a dealltwriaeth o ddylunio cynhwysol ac ar faterion sy'n effeithio pobl anabl.

Mynediad Corfforol - Ar ôl ymgysylltu gyda grwpiau anabl lleol, mae Cyngor Sir Ddinbych nawr gyda chynllun gweithredu mewn lle i gynyddu'r rhifau ac i adnabod y mannau hynny sydd angen ymylfaen palmentydd isel yn y sir.

Mae Cyngor Sir Fflint wedi ail-gyflwyno swydd Swyddog Mynediad rhan amser i fynd i'r afael a materion mynediad yn swyddfeydd y cyngor. Mae'r swydd yn un o ddim ond ychydig yng Ngogledd Cymru.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn parhau i ddatblygu llwybrau hygyrch ar draws y parc. Dau brosiect diweddar cwblhawyd yw agor Lôn Gwyrfai - o Rhyd Ddu i Feddgelert, sydd bellach yn hygyrch i sgwteri aml dirwedd; ac uwchraddio llwybr hygyrch Dol Idris.

Mae rhai awdurdodau lleol yn ymgymryd ag asesiadau i adnabod lle mae systemau dolenni clyw ar gael yn y gwasanaethau rheng flaen e.e. siopau un stop, llyfrgelloedd, derbynfeydd.

Gellir gweld gweithrediadau positif ychwanegol yng Nghynlluniau Cydraddoldeb Strategol neu gynlluniau gweithredu aelodau'r Rhwydwaith.

5. Pwyntiau Allweddol ac Adborth

Cafwyd trafodaeth wedi'i hwyluso o amgylch pob bwrdd ac mae rhestr lawn o'r adborth ar gael yn Atodiad 6, pryn bynnag mae'r prif bwyntiau a nodwyd yn cynnwys:-

Amcan	Adborth pwyntiau allweddol
1. Iechyd	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gwrando ar gleifion a chynnwys gofalwyr a theulu mewn cynllunio gofal - gwell dealltwriaeth o anghenion unigolyn (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gofal Cymdeithasol) ➤ Arwyddo gwell tuag at Feddyg Teulu a mwy o wybodaeth am y system gofal sylfaenol ar gyfer pobl sy'n newydd i'r UD ➤ Llongyfarchiadau i'r Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar eu canllaw cyfathrebu sy'n adnabod ymarfer da
2. Addysg	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Pwysigrwydd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (gwarantu hawliau sylfaenol) – yn bwysig i gyfeirio ato ym mhob maes gwaith cydraddoldeb ➤ Peidiwch ag anghofio anghenion plant sy'n cael eu haddysgu gan Gyngorau ond dim mewn adeiladau ysgol ➤ Pwysigrwydd 'hawdd i'w ddarllen' mewn adnoddau hyfforddi (yn cynnwys ffurflenni cais am hyfforddiant) ➤ Gwelliannau positif mewn addasiadau i adeiladau ysgol, ond angen gwneud mwy yng Ngogledd Cymru
3. Cyflogaeth a Thâl	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cynyddu hyder unigolion sy'n llenwi ffurflenni monitro i wella ansawdd y data monitro ➤ Adolygu ystadegau cyflogaeth ac edrych ar y tuedd rhwng grwpiau a ddiogelir a chategoriâu swyddi ➤ Gwella hygyrchedd ffurflenni cyflogaeth e.e. ffurflenni cais a dogfennau arfarnu swyddi 'hawdd i'w darllen', cywirdeb swydd disgrifiadau ➤ Datblygu rôl Pencampwyr Cydraddoldeb Undebau Llafur
4. Diogelwch Personol	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mynediad at Wasanaethau Cam-drin Domestig (iaith/ethnigrwydd) ➤ Canolbwyntio ar droseddau casineb cyfryngau cymdeithasol ➤ Edrych ar dai diogel gyda mynediad i gadair olwyn
5. Cynrychiolaeth & Llais	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cyhoeddi canllawiau mewn gwahanol ffyrdd a datblygu hyder i bobl gymryd rhan mewn cyrff sy'n gwneud penderfyniadau (creu cysylltiadau gyda llais y gymuned) ➤ Ymglymu pobl mewn ystod eang o grwpiau – nid yn unig yn benodol i'w grwpiau a ddiogelir ➤ Darparu gwybodaeth glir ynglŷn â beth fydd o'n ei olygu os yw unigolion yn ymuno a chorff gwneud penderfyniadau penodol
6. Mynediad	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Staff rheng flaen angen hyfforddiant cydraddoldeb anabledd ➤ Dogfennau cyhoeddus i fabwysiadu ymarfer da mewn dylunio ac iaith glir ➤ Mae mynediad i wasanaethau yn anodd mewn mannau gwledig (yn enwedig ar-lein) ➤ Cyhoeddi a hyrwyddo pan rydych wedi gwneud gwelliannau i wasanaethau

6. Diolch a Chau

Diolchodd Steve Bennett i bawb am ddod ac am eu cyfraniadau gwerthfawr. Dywedodd ei fod wedi clywed adborth cadarnhaol yn ystod y digwyddiad ac roedd yn edrych ymlaen at weld sut y bydd negeseuon allweddol o heddiw yn llywio gwaith y Rhwydwaith yn y dyfodol.

Camau Nesaf

Bydd aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynnal digwyddiadau ar y cyd fel y bo adnoddau'n caniatáu. Yn y cyfamser, bydd sefydliadau unigol yn parhau i gymryd rhan yn lleol trwy amrywiaeth o weithgareddau. Edrychwch ar wefannau aelodau'r Rhwydwaith neu cysylltwch â'r aelod perthnasol yn uniongyrchol am fwy o wybodaeth.



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL



Canolfan Fusnes Conwy / *Conwy Business Centre*
7 Tachwedd / *November 2013*

A1. RHAGLEN / PROGRAMME

Cofrestru a lluniaeth	10.00 a.m.	Registration and refreshments
Croeso ac anerchiad agoriadol <i>Steve Bennett</i> <i>Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</i>	10.30 a.m.	Welcome and opening address <i>Steve Bennett</i> <i>Equality and Human Rights Commission</i>
Trosolwg o'r rhaglen ar gyfer y diwrnod Cyflwyniad i ymarfer Amcanion Cydraddoldeb <i>Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</i>	10.40 a.m.	Overview of programme for the day Introduction to Equality Objectives exercise <i>Paula Walters</i> <i>NHS Centre for Equality and Human Rights</i>
Cyflwyno adborth ar gynnydd a chyraeddiadau (ar y cyd a sefydliadol) gan gynnwys storïau arfer da <i>Aelodau'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus</i>	10.50 a.m.	Present feedback on progress and achievements (joint and organisational) including good practice stories <i>Public Sector Equality Network Members</i>
Adborth a thrafodaeth o amgylch y bwrdd - yr hyn yr ydym wedi ei wneud yn dda, beth y gallem ei wneud yn well, y materion sydd angen mynd i'r afael arnynt?	11.30 a.m.	Feedback and discussion around the table – what we have done well, what could we do better, what issues need addressing?
Cinio	12:45 a.m.	Lunch
Cyfle i rwydweithio a thrafodaethau unigol	1:30 p.m.	Opportunity for networking and individual discussions
Adborth o'r pwyntiau allweddol <i>Paula Walters</i>	2:30 p.m.	Key points feedback <i>Paula Walters</i>

A2. Aelodaeth Rhwydwaith Sector Gyhoeddus Cydraddoldeb Gogledd Cymru a Chysylltiadau

Organisation	Names	Contact	Website
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Sally Thomas Mike Townson	Sally.thomas4@wales.nhs.uk mike.townson@wales.nhs.uk	www.bcu.wales.nhs.uk
Heddlu Gogledd Cymru	Greg George	greg.george@nthwales.pnn.police.uk	www.north-wales.police.uk
Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Elizabeth Ward	elizabeth.ward@nthwales.pnn.police.uk	www.northwales-pcc.gov.uk
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru	Kay Myatt	Kay.Myatt@wales.nhs.uk	www.was-tr.wales.nhs.uk
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Bethan Wyn Hughes	Bethan.Hughes@eryri-npa.gov.uk	www.eryri-npa.gov.uk
Cyngor Sir Ynys Môn	Carol Wyn Owen Rhian W Hughes	CarolWynOwen@anglesey.gov.uk RhianWHughes@anglesey.gov.uk	www.anglesey.gov.uk
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Tracey Pardoe Gail Radcliffe	tracey.pardoe@conwy.gov.uk gail.radcliffe@conwy.gov.uk	www.conwy.gov.uk
Cyngor Sir Ddinbych	Karen Beattie	karen.beattie@denbighshire.gov.uk	www.denbighshire.gov.uk
Cyngor Sir Fflint	Fiona Mocko	fiona.mocko@flintshire.gov.uk Stephanie_aldrige@flintshire.gov.uk	www.flintshire.gov.uk
Cyngor Gwynedd	Ruth Richards	RuthRichards@gwynedd.gov.uk Garethroberts3@gwynedd.gov.uk	www.gwynedd.gov.uk
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Gillian Grainger	gillian.grainger@wrexham.gov.uk	www.wrexham.gov.uk
Coleg Cambria	Elane Roberts	EMR@yale-wrexham.ac.uk	www.cambria.ac.uk

A3. Digwyddiad Ymgysylltu: Rhestr Mynychwyr

1. Heddlu Gogledd Cymru
2. NEWSA Ltd
3. Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Heddlu Gogledd Cymru
4. Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
5. Gwasanaeth Adfocatiaeth a Chynghori Gogledd Cymru
6. Rhwydwaith Rhanbarthol Cydraddoldeb Gogledd Cymru
7. Gwasanaeth Ieuencid LDHT Viva
8. Canolfan Gyngori Conwy
9. Sylfaen Cymunedol Cyf
10. Grŵp Mynediad Conwy
11. Terrance Higgins Trust
12. Coleg Menai
13. Cefnogaeth i Ddiodefwyr
14. Anabledd Cymru
15. Grŵp Mynediad Arfon
16. Gingerbread
17. Canolfan GIG Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
18. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

A4. Monitro Cydraddoldeb

Grŵp Oedran:

21 – 45	36%
46 – 65	55%
66 – 74	9%

Rhyw:

Benyw	40%
Gwryw	60%

Hunaniaeth Rhyw:

Ydych chi'n ystyried eich hunain yn drawsrywiol?

Nac Ydw	100%
---------	------

Cenedligrwydd:

Cymraeg	50%
Saesneg	17%
Prydeinig	25%
Pwyliaid	8%

Dewis Iaith:

	Siarad	Ysgrifenedig
Cymraeg	20%	11%
Saesneg	70%	89%
Arall	10%	

Anabledd:

Oes	30%
Nac oes	70%

Nam corfforol 25%

Salwch neu gyflwr iechyd cyfnod hir 50%

Arall: Cauda equina syndrome 25%

Grŵp Ethnig:

Cymraeg	46%
Saesneg	9%
Prydeinig	36%
Arall:	9%

Crefydd neu Gred:

Cristion	45%
Arall	10%
Dim	45%

Cyfeiriadedd Rhywiol:

Heterorywiol	70%
Dyn Hoyw	10%
Merch Hoyw/Lesbiad	10%
Ddim am ddweud	10%

Cyfrifoldebau Gofalu:

Oes	50%
Nac oes	50%

Statws Priodasol:

Priod	40%
Sengl	20%
Wedi ysgaru	10%
Cyd-fyw	30%

Nodyn: Er hwylustod, mae'r uchod yn cynrychioli'r cyfraniad o bobl lle dderbyniwyd ymatebion cadarnhaol ar yr holiadur ac mae'n eithrio grwpiau lle'r oedd yr ymateb yn sero.

A5. Adborth o'r Ffurflenni Arfarnu

Nifer o ffurflenni cwblhawyd: **11**

Yr Adeilad – Cyflusterau

Rhagorol	73%
Da	27%
Boddhaol	0%
Ddim yn foddhaol	0%
Gwael	0%

Lleoliad

Rhagorol	55%
Da	36%
Boddhaol	9%
Ddim yn foddhaol	0%
Gwael	0%

Cyflawni'r Pwrpas - Amcanion

Rhagorol	36%
Da	55%
Boddhaol	9%
Ddim yn foddhaol	0%
Gwael	0%

Arlwyaeth

Rhagorol	46%
Da	36%
Boddhaol	18%
Ddim yn foddhaol	0%
Gwael	0%

A ydych yn gwerthfawrogi'r ymgysylltu â'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru?

Ydw	100%
Nac ydw	0%

Pa mor aml ydych chi'n credu y dylai'r ymgysylltu yma ddigwydd?

Bob 6 Mis	64%
Blynyddol	27%
Arall	9%

A yw lleoliad canolog orau neu a ddylai'r digwyddiadau gymryd lle mewn gwahanol ardaloedd ar draws Gogledd Cymru?

Canolog	55%
Ardaloedd Gwahanol	18%
Dim barn	27%

Beth hoffech chi weld ar y rhaglen ar gyfer cyfarfodydd neu ddigwyddiadau'r Rhwydwaith yn y dyfodol?

Ymarferion da, gwersi a ddysgwyd, effaith y gwaith
Diweddariad ar gynnydd, adborth a.y.b.
Cynnydd, ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau
Adolygu'r amcanion cydraddoldeb strategol
Cyflwyniadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau
Cyfeirio at adran ehangach o'r gymuned gan gynnwys grwpiau oedran
Siaradwr o Lywodraeth Cymru
Gwasanaethau Gwirfoddol ar draws Gogledd Cymru

Unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach

Cryfder y digwyddiad hwn yw'r amrywiaeth o fynychwyr a'r wybodaeth a phrofiad sydd gan gynulleidfa mor amrywiol
Fyddai wedi bod yn well cael mwy o amser i siarad â bob person / hwylusydd a llai o amser ar gyfer cinio
Rwyf wedi cael fy synnu nad oedd y Gwasanaeth Eryl y Goron yn bresennol fel corff gwasanaeth cyhoeddus
Mwy o sylw i faterion o nam clywedol (sŵn yn y cefndir)
Annog siaradwyr i sefyll wrth annerch y cynulliad

A6. Adborth gan y cynrychiolwyr ar y cyflwyniadau cynnydd

Mae'r pwyntiau bwled ganlynol yn cynrychioli'r adborth a ddarparwyd gan gynrychiolwyr mewn ymateb i'r cyflwyniadau trwy'r trafodaethau o gwmpas y bwrdd a gwybodaeth rhoddwyd fyny ar y siartiau troi drwy gydol y dydd.

Amcan 1: Lleihau anghydraddoldebau mewn lechyd

- Gwrando ar gleifion ac ymglymu gofalwyr yn eu gofal
- Gwell cyfathrebu gyda gofalwyr a theulu i ddeall anghenion unigol
- Ymgysylltu gyda chynlluniau gofal i'r henoed - sut mae'r teulu yn cael eu cynnwys?
- Arwyddo gwell ar gyfer gweithwyr ymfudol ar sut i gofrestru gyda meddyg teulu
- Mae gweithwyr ymfudol yn poeni am sut i dalu am iechyd/meddyginiaethau gan nad oes dim gwybodaeth iddynt. Mae systemau'r DU yn wahanol iawn i wledydd y mewnudwyr
- Dyle gwybodaeth i weithwyr ymfudol fod ar gael mewn Saesneg clir ynghyd â mewn ystod eang o ieithoedd eraill
- Llongyfarchiadau i'r Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru am eu canllaw cyfathrebu a dogfennau hawdd i'w darllen - dylid eu profi gyda phobl sydd hefo anawsterau dysgu ynghyd â defnyddwyr gwasanaeth ehangach?
- Rhieni sengl - pryder pan mae plentyn yn mynd mewn i'r ysbyty, mae'n rhaid i'r plant eraill fynd hefyd - costau cysylltiol i fynd adref o'r ysbyty yn ystod y nos pan mae trafniadaeth gyhoeddus ddim ar gael a hefyd materion gofal plant ychwanegol
- Dylid GIG weld gofalwyr fel rhan annatod o dîm iechyd claf bregus, yn enwedig wrth ryddhau'r claf o'r ysbyty. Awgrymu dylid rhyddhau'r claf cael ei weld fel newid shift/trosglwyddiad - byddai'n sicrhau bod gofalwyr cartref yn gwybod statws y claf mewn perthynas â meddyginiaethau, hydradiad a.y.b.
- Sut mae lechyd Cyhoeddus yn rhan/yn rhoi cymorth i Fwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyrraedd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol?
- Sut mae gweithgaredd lechyd Cyhoeddus yn cyrraedd ac yn targedu anghenion penodol mewn perthynas â nodweddion a ddiogelir?
- Pa gefnogaeth sydd yna i staff sydd gyda Saesneg fel ail iaith? Gallai Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (ac eraill) arwyddo staff at gyrsiau yng Ngholeg Menai?
- Dylai dogfennau Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl - gwarantu hawliau sylfaenol
- System gwneud apwyntiadau meddygol yng Ngogledd Cymru - dim yn gallu trefnu'r apwyntiad nesaf cyn gadael y clinig
- Angen ymateb i'r oediad mewn cyfeiriadau Meddyg Teulu – gymryd rhy hir i lythyr y meddyg gyrraedd yr ymgynghorwr
- Ymateb i anghenion cleifion Lesbiaid, Hoyw a Deurywiol wrth ddefnyddio iaith hunaniaeth rhyw niwtral a sialensio safbwyntiau stereoteip (heterorywioldeb tybiedig)
- Diffyg hyder yn y system i godi pryder - "dim yn werth ei godi gan nad oes dim am ddogwydd pryn bynnag"
- Mae'n rhaid defnyddio iaith y model cymdeithasol trwy gydol y ddogfen Cynllun Cydraddoldeb Strategol

- Pa gymorth sydd ar gael / yn cael ei rhoi i bobl sy'n datblygu anabledd neu gyflwr cronig i helpu nhw i ymdopi? Angen datblygu arwyddo gwell tuag at grwpiau a sefydliadau cefnogaeth
- Defnyddio pasbort ysbyty ar gyfer pobl gydag anawsterau dysgu?
- Ydi toiledau "Clos-o-mat" yn cael eu gosod mewn wardiau ar gyfer pobl hyn?
- Pan fod plant gyda IQ uchel yn cael eu gwahardd o wasanaethau plant arbenigol?
- Mae'r amser ymateb gwasanaethau cadair olwyn yn annigonol
- Mae cynhyrchu ar y cyd (e.e. canllawiau a.y.b.) gyda defnyddwyr gwasanaethau anabledd yn gwella
- Cydnabuwyd bod diffyg gwybodaeth dadelfenedig o ansawdd i gael am anghydraddoldebau iechyd, pryn bynnag mae yna nifer o enghreifftiau o ymyriadau wedi'u targedu yn cymryd lle
- Mae problemau yn parhau gyda sicrhau pob yr holl bobl gydag Anableddau Dysgu yn derbyn gwyriad iechyd blynyddol (fel y nodwyd yn yr adroddiad "Cau'r Bwlch")
- Mae cleifion yn cael anawsterau i ddeall swyddogion iechyd pan nad yw eu hiaith gyntaf yn Saesneg
- Pam nad yw pobl yn cael defnyddio eu cadair olwyn ei hunain wrth fynd i'r ysbyty?
- Nid yw pobl hyn sydd gyda'r gallu yn cael cymryd rhan yn eu cynlluniau gofal ei hunain

Amcan 2: Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg

- Pwysigrwydd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl ar draws pob maes gwaith cydraddoldeb – yr un mor bwysig mewn Addysg â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant, Deddf Cydraddoldeb 2010 ayyb
- Pwysigrwydd darparu addysg ar/codi ymwybyddiaeth am y Model Anabledd Cymdeithasol a Byw'n Annibynnol
- Gwerth drama ar gyfer cyfathrebu gwirioneddau anabledd – ee "Real Human Being" (cyf. Gwefan Anabledd Cymru: www.disabilitywales.org)
- Gwnewch ddefnydd o DVD er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl anabl am beth sy'n cael ei ddehongli fel bwlio
- Angen i bawb gymryd cyfrifoldeb am ddelio gyda bwlio - peidiwch â phasio problemau ymlaen i eraill; yn lle hynny, gweithiwch gyda'ch gilydd mewn modd cadarnhaol
- Pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad at wasanaethau cwnsela y tu allan i ysgolion
- Cwnsela gan gyfoedion – rhai enghreifftiau llwyddiannus o hyn yn yr Alban
- Gwelliannau cadarnhaol o ran addasiadau i adeiladau ysgolion er mwyn rhoi mynediad i'r anabl
- Llawer iawn mwy i'w wneud o hyd i gael ysgolion yn hygyrch ar draws Gogledd Cymru – angen addasu ysgolion o fewn yr ardal leol, yn hytrach na dynodi ysgolion pwrpasol
- Pwysigrwydd sicrhau bod cludiant addas ar gael er mwyn galluogi pobl anabl i gymryd rhan yn llawn mewn lleoliadau gwaith ayyb
- Pwysigrwydd dogfennau Hawdd i Ddarllen – ffurflenni cais am hyfforddiant ayyb
- Angen sicrhau bod offer arbenigol addas ar gael er mwyn galluogi pobl anabl i gwblhau cyrsiau (ee TG)

- Angen cynyddu'r ddarpariaeth o ran cyfleoedd e-ddysgu
- Peidiwch ag anghofio anghenion plant sy'n cael eu haddysgu gan gynghorau ond nid mewn adeiladau ysgolion (nid yw'r holl enghreifftiau da o ran gwelliant yn berthnasol i'r grŵp yma)
- Nid yw plant dawnus sydd ag anghenion arbennig yn derbyn cefnogaeth ddigonol - angen gwneud y mwyaf o'u potensial
- Gwasanaethau leuenctid Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol wedi bod yn gweithio gydag ysgolion yn Sir Ddinbych – oes modd ehangu hyn ar draws siroedd eraill?
- Sut allwn ni gwrdd ag anghenion addysg oedolion mewn amser o gyfyngiadau ariannol?
- Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL) – fawr o wybodaeth am y ddarpariaeth yn ysgolion Ynys Môn
- Dylai system prydau ysgol 'heb arian' Ynys Môn gael ei hymestyn ar draws Gogledd Cymru
- Dylid cychwyn addysg rhyw yn gynharach - angen dealltwriaeth bersonol fwy cyffredinol bod pobl yn wahanol
- Angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth am HIV
- Angen gwell cysylltiadau rhwng y Gwasanaeth Addysg a'r Brifysgol

Cyffredinol

- Angen cael y newyddion cadarnhaol yma allan i'r cyhoedd a chodi proffil y Rhwydwaith
- Dylai Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol gyfeirio at Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl – gwarant hawliau sylfaenol hanfodol

Amcan 3: Lleihau anghydraddoldebau mewn Cyflogaeth a Thâl

- Nid yw gofalmwyr wedi cael eu cynnwys yn y Ddeddf Cydraddoldeb ond gellir fod angen amser i ffwrdd o'r gwaith ar fur rhybudd neu oriau fflecsi heb eu cynllunio
- Buasai'n ddefnyddiol gweld ystadegau ar ddargadwad swydd
- Dylai dogfennau Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl - gwarantu hawliau sylfaenol
- Mae swydd disgrifiadau manwl cywir yn bwysig yn enwedig o gwmpas lefel y teithio ac mae sgiliau cyfathrebu da yn troi pobl i ffwrdd
- Pwysigrwydd darparu Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabled i staff - yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r Model Cymdeithasol o Anabled a Byw'n Annibynnol

Sylwadau Adborth

- Awgrymu ffurflenni cais 'hawdd i'w ddarllen' a chanllawiau 'hawdd i'w ddarllen' ar gyfer staff i gwblhau ffurflenni arfarnu swydd
- Cynyddu'r hyder yn y system ac efallai byddai mwy o bobl yn datgan gwybodaeth cydraddoldeb
- Mae newid diwylliant y sefydliad yn bwysig i gynyddu hyder
- Mae hyfforddi staff yn bwysig mewn perthnasedd i anabled a chynnwys y Model Cymdeithasol o Anabled a Byw'n Annibynnol

- Mae hyfforddiant nam ar y golwg yn wahanol i hyfforddiant cydraddoldeb anabledd
- Faint o bobl anabl sy'n cael eu cadw mewn cyflogaeth?
- Mae'r data yma'n ddefnyddiol, oes posib ei dorri lawr yn bellach?
- Mae angen llwybrau i bobl allu symud o'r graddau is i swyddi proffesiynol
- Gellir taflen Stonewall 'What's it got to do with you?' fod o gymorth i godi ymwybyddiaeth hefo staff.
- Angen annog fwy o bobl i ddatgelu gwybodaeth cydraddoldeb
- Nifer bychan o ddata sydd ar gael am rhai o'r nodweddion a ddiogelir
- Mae'r data angen bod yn fwy cynrychiadol o'r gymuned
- Mae yna wahaniaeth rhwng y sector gyhoeddus a'r sector breifat dros gyflogi pobl anabl
- Mae'r bartneriaeth cydraddoldeb Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn cyhoeddi data rhanbarthol sy'n ymwneud â Gogledd Cymru
- Mewn perthynas â'r data recriwtio, buasai'n dda o beth cael dadansoddiad o'r math o swyddi a pwy sy'n ymgeisio amdanynt
- Buasai dadansoddiad pellach yn ddefnyddiol i edrych ar y tueddiadau rhwng gwahanol grwpiau
- Mae'r disgwyliad cyflog yn erbyn bodlonrwydd swydd wedi newid ac efallai bydd proffil y gweithle yn newid oherwydd hyn
- Mae canfyddiad gwahanol unigolion mewn gwahanol swyddi yn bwysig - deall beth mae'r rôl yn ei olygu a beth mae hyn yn ei olygu i'r unigolyn, i allu newid canfyddiad
- Mae yna gyfle i ddatblygu cynrychiolwyr undebau llafur ac mae yna ddisgwyliad bod Awdurdodau Lleol yn cefnogi'r cynrychiolwyr
- Mae pobl yn amheus dros roi gwybodaeth am ei hunain
- A yw hyfforddiant cydraddoldeb yn cymryd lle ac oes yna hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer aelodau etholedig?
- Mae yna angen i weithio tuag at atal y mater o ymelwad gweithwyr ymfudol

Cyffredinol

- Dylai Cynlluniau Gofal fod yn seiliedig ar anghenion unigolyn
- Mae angen deall anghenion meddyliol ac athronyddol pobl. Nid yw bob tro yn cael ei drosglwyddo i ddealltwriaeth ymarferol
- Mae yna wahaniaeth rhwng be mae cleient 'angen' ac 'eisiau', ac wrth ddarparu beth mae'r cleient eisiau mae hyn yn gallu ehangu ei lles unigol

Amcan 4: Lleihau anghydraddoldebau mewn Diogelwch Personol

- Gofyn am adborth gan y sawl sydd wedi adrodd, a fuasent nhw yn gwneud yr un peth eto? Os na, pam ddim?
- Dylai dogfennau Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl - gwarantu hawliau sylfaenol
- Argaeledd tai diogel/ffoaduriaid sy'n hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn
- Llefydd Diogel - datblygu rhwydwaith o rhanddeiliaid/darparwyr cyhoeddus (e.e. tafarndai/siopa a.y.b.) ar gyfer pobl sy'n cael profiad o Drosedd Casineb mewn manau cyhoeddus
- Addysg leuenctid

- Cyfryngau Cymdeithasol, facebook a.y.b.
- Camdriniaeth ddomestig yn erbyn gwrywod
- Cael gwared â'r defnydd o "yr" o flaen henoed

Amcan 5: Lleihau anghydraddoldebau o ran Cynrychiolaeth a Llais

- Cynnwys pobl gydag anableddau dysgu o fewn cyrff Gwneud Penderfyniadau
- Chwalu mythau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu gan efallai nad oes ganddynt y gallu i fynegi ei hunain yn hawdd
- Mae pobl mewn grwpiau a ddiogelir ond yn cael eu gwadd i ymgynghori a'r Polisiau, Strategaethau a Gwasanaethau sy'n berthnasol iddyn nhw, dylid fod yn fwy cynhwysol ym mhob gwasanaethau
- Bod yn rhan o'r ymgynghori a chyd-gynhyrchu o'r cychwyn cyntaf i sicrhau fod pethau yn addas at y diben
- Nid yw ymgynghori gyda phobl hyn yn amlwg o fewn grwpiau. Dylid ymgynghori gyda phobl hyn mewn perthynas â gwasanaethau efallai byddant eu hangen
- Yn rhy aml mae rhagdybiaeth yn cael ei wneud nad yw pobl hyn yn deall y pecynnau gofal iddynt
- Gwnewch yn siŵr fod o'n berthnasol i'r holl bobl o'r nodweddion a ddiogelir
- Mwy o ymglymiad mewn digwyddiadau Llais y Gymuned
- Mae'r ddogfen "Sut i fod yn rhan o gorff sy'n gwneud penderfyniadau" yn ddefnyddiol, ond hefyd dylai fod dogfen ar gael cefnogaeth i gyrraedd lefel lle mae pobl yn teimlo y gallant gymryd rhan
- Sicrhau fod y ddogfen cyrff gwneud penderfyniadau yn cael ei hyrwyddo mewn nifer o wahanol amgylcheddau
- Ychwanegwch luniau yn y ddogfen i'w wneud yn ddeniadol i bobl ifanc ac yn hawdd i bobl gydag anableddau dysgu i'w ddeall
- Cael Cynghorwyr i ymateb i lythrau mewn ffrâm amser derbyniol
- Sicrhau bod gwahoddiadau ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yn cael eu gyrru allan mewn da bryd ac nid ychydig wythnosau cyn y digwyddiad fel nad yw cynrychiolydd yn gorfod llenwi mewn
- Cymorth gyda threuliau i fynychu digwyddiadau a'r gofynion sydd ar wirfoddolwyr, Cynghorwyr a Llywodraethwyr Ysgol
- Mwy o eglurder ar beth sydd ei angen gan wirfoddolwr (fel llywodraethwr ysgol a.y.b) i sicrhau bod nhw'n gallu gwneud penderfyniad gwybodus a bod ganddynt y sgiliau er mwyn iddynt allu cymryd i ystyriaeth beth allant gyfrannu
- Mae'r ddogfen "Sut i fod yn rhan o gorff sy'n gwneud penderfyniadau" yn ddefnyddiol iawn i fyfyrwyr Saesneg fel Ail Iaith yn y coleg
- Dylai taflen friffio i fynd gyda'r ddogfen fod mewn termau llyegwr i adael pobl wybod bod y ddogfen ar gael
- Torri lawr rhwystrau i gael pobl i gymryd rhan mewn grwpiau. Edrych ar y lluniau rydym yn ei ddefnyddio mewn dogfennau. Edrych ar wahanol ffurf o hyrwyddo'r gwasanaeth / grŵp. Mae mwyafrif o grwpiau wedi eu hanelu at oedran ac anabledd
- Dylem ni hyrwyddo'r ymarfer da rydym wedi llwyddo ynddo
- Diffyg arian grant ar gael i gyrrff Lleol/Cyhoeddus
- Manylion cyswllt addas i siarad â phobl i helpu datblygu gwasanaethau
- Adborth i'r cyhoedd ar beth roedd yr ymgynghoriad amdan a beth oedd yr adborth gan y mynychwyr yn y digwyddiad

- Edrych ar gael llais “arbenigol” ar gael mewn pwyllgorau craffu – aelod o’r cyhoedd
- Oni bai fod pobl yn aelod o barti gwleidyddol penodol maen nhw’n ansicr ar le i fynd i gael gwybodaeth ar sut i gael eu hethol
- Y lefel o waith papur sydd ei angen pan mae rhywun yn rhan o gorff sy’n gwneud penderfyniadau
- Hyfforddiant cydraddoldeb anabledd - y ddarpariaeth ohono a sicrhau fod y model cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio yn hytrach na’r model meddygol
- Angen ffocws ar ymgysylltu gyda phobl ifanc anabl
- Dylai dogfennau Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl - gwarantu hawliau sylfaenol

Amcan 6: Lleihau anghydraddoldebau o ran Mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a’r amgylchedd

1. Cyfathrebu

- Angen Datganiad i’r Wasg i adael i’r cyhoedd wybod am y gwelliannau rydych wedi’u wneud
- Sicrhau fod staff rheng flaen wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio gwasanaethau fel ‘language line’ a’r ‘thebigword’
- Teilwra gwybodaeth ar gyfer gwahanol gynulleidfa
- Fedrwn ni wneud yr un peth a Heddlu Glannau Mersi a darparu taflen ar gyfer pobl gydag anawsterau dysgu ar beth i’w wneud os byddant yn cael eu harestio (ymarfer da)
- Nid yw unrhyw rhai o’ch dogfennau Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn cyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl sydd yn (neu dylai fod) yn gwarantu hawliau sylfaenol
- Rhifau tudalennau ar Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Lleihau'r defnydd o jargon
- Edrychwch ar ganllawiau RNIB am safonau gohebu. Dyle strategaethau cyfathrebu adlewyrchu anghenion pawb
- Mae angen gwella mynediad at y rhyngwyd mewn ardaloedd gwledig
- Ffurflen archebu - cynnig dewis arall i ddolennau clyw. Gallu eistedd ar y blaen yn well na defnyddio dolen clyw
- Nid yw pawb yn llythrennog mewn technoleg gwybodaeth
- Nid pawb sydd yn gallu cael mynediad at y we
- Mae pobl gydag anawsterau dysgu angen gwybodaeth mewn ffordd weledol
- Dylai holl ddogfennau cyhoeddus ddefnyddio'r canllawiau ‘see it right’
- Dylai fod yn safonol i ddogfennau cyhoeddus fod mewn Word
- Hyrwyddo a hyfforddi staff ar sut i ddefnyddio ‘bigword’ a ‘language line’
- Mae rhai o’r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn awgrymu nad yw cyrff di-ddatganoledig gyda dyletswyddau cyffredinol ar gydraddoldeb
- Peidiwch â defnyddio PDF
- Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb, pryder dros yr arbenigedd sydd gan bobl i deall y penderfyniadau a wneir

- Angen grŵp sicrwydd ansawdd a chysylltu gyda'r sector wirfoddol ar Asesiadau Effaith Cydraddoldeb
- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb i ddangos sut mae gofal yn cael ei ddarparu mewn ardaloedd gwledig
- Darparu cyfleusterau clywedol ar ein gwefannau
- Cynnwys Iaith Arwyddion Prydeinig ar gyfleusterau clywedol
- Angen gwybodaeth mewn Saesneg clir
- Defnyddio arwyddion ffordd iaith mewn dogfennau
- Darparu gwybodaeth mynediad ar-lein e.e. canolfannau hamdden, llefydd adloniant
- Ymgynghori gwael parthed datblygiad Bae Colwyn, Adfywiad Rhyl
- Neb yn gwirio'r wybodaeth mewn Datganiadau Dylunio a Mynediad gan dderbyn bydd o'n cydymffurfio gyda dim gwybodaeth i'w gefnogi
- Pa hyfforddiant mae staff yn ei gael ar ddeddfwriaethau?

2. Mynediad Corfforol

- Mae pobl o ardaloedd gwledig angen cefnogaeth ychwanegol e.e. trafnidiaeth a gofal
- Gweithio mewn partneriaeth - buddiannau costau ac ymestyn yn bellach
- Mabwysiadu Model o ymarfer da, swyddogion mynediad, grwpiau mynediad, fforymau cydraddoldeb anabledd, angen arbenigwyr lleol
- Gorfodaeth o lefydd parcio bathodyn glas (angen gorfodi'r defnydd cywir)
- Angen parcio am ddim i fathodynau glas dros y Gogledd. Mae pobl anabl yn dlotach. Lle mae'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb? (Sir Dinbych)
- I alluogi staff i gynhyrchu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb dilys mae'n rhaid iddynt, fel lleiafswm cael Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd ac ymglymu pobl gyda nodweddion a ddiogelir. Casglu data
- Llefydd parcio – pobl hefo amhariadau sydd ddim yn weledol yn cael eu haflonyddu
- Dim digon o lefydd parcio i bobl anabl.
- Effaith economeg ar wahaniaethu yn erbyn pobl anabl e.e. dim adeiladau hygyrch = dim am ddod eto
- Anodd cael mynediad at ddefnyddwyr gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig hefo car. Dylai Gwasanaethau Cymdeithasol defnyddio ceir pwl yn hytrach na gwrthod rhoi cefnogaeth oherwydd bod rhywle yn rhy wledig
- Dylai Parc (Fflint) cael gwared â'r rhwystrau mynediad i bobl anabl, giatiau anaddas wedi cael eu rhoi mewn lle (cloiau na ellir cael eu hagor gan bobl anabl)
- Darpariaeth o gyfleusterau newid mewn toiledau cyhoeddus
- Amseroedd hyblyg ar gyfer mynediad at wasanaethau
- Car BCU yn syniad da
- Nid yw'r ddolen clyw yn addas i bawb
- Ymylfaen palmant isel, da iawn Conwy
- Datblygiad Bae Colwyn, safonau isel, ymgynghori gwael, taflu'r bai

- Angen ymwybyddiaeth o ddiwylliant a chrefydd eraill mewn argymhellion mynediad e.e. ystafelloedd gweddi, cyfleusterau ymolchi
- Angen toiledau cyhoeddus hygyrch. 20 ceiniog yn annerbyniol, yn agor ar ôl amser byr, lle mae'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb. Nid yw toiledau newydd yn cyrraedd y gofynion i bobl anabl
- Dyluniad toiledau angen cyrraedd gofynion ac angen fod yn fwy agored
- Ardaloedd gweledig, rhieni sengl, pobl hyn, sut maen nhw'n cyrraedd gwasanaethau gyda darpariaeth bws cyfyngedig
- Gormod o gynlluniau yn cael eu caniatáu sydd ddim yn cyrraedd gofynion pobl anabl. Angen fwy o orfodaeth
- Hyfforddiant ar gyfer gyrwyr bws
- Pa wir wahaniaeth mae Pencampwyr Cydraddoldeb yn ei wneud, pa hyfforddiant maen nhw yn ei gael?
- Beth yw'r meini prawf i fod yn bencampwr?
- Giatiau cefn gwlad, allweddau RADAR ddim yn ymarfer da
- Ymgynghori gwael gyda phobl anabl ynglŷn â gwelliannau i orsafoedd trên (dweud wrthym be maen nhw'n ei wneud)
- Atal defnyddio bysiau deulawr ar hyd yr arfordir, dim yn gynhwysol